Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Taliadau bonws, milltiredd a goramser i aelodau teulu a gyflogir fel staff cymorth

21 Gorffennaf 2014

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 16 Mehefin. Ynddo, gofynnwch:

*a fyddai modd inni ddarparu'r wybodaeth ganlynol parthed aelodau teulu a gyflogir gan Aelodau'r Cynulliad fel staff cymorth, sef*
*faint o arian y mae pob aelod teulu wedi ei dderbyn ym mhob blwyddyn er 2007 ar ffurf taliadau bonws, milltiredd a goramser?*

Gallaf gadarnhau bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani gennym. Fodd bynnag, mae'n cynnwys data personol sy'n dod o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym o'r farn y byddai datgelu'r symiau a dalwyd i staff cymorth unigol yn mynd yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf yn Neddf Diogelu Data 1998. O'r herwydd, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y ffordd y daethpwyd i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Er hynny, mewn ymgais i roi gwybodaeth i chi, gan sicrhau ein bod ninnau'n cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, rydym wedi darparu manylion am y symiau a dalwyd ar gyfer y mathau hyn o wariant ar ffurf ddienw.

Mae'r tabl isod yn rhoi'r cyfanswm a dalwyd ym mhob blwyddyn ariannol er 2007-08 o ran taliadau bonws, milltiredd a goramser, a nifer y staff cymorth i Aelodau'r Cynulliad sydd wedi derbyn y symiau hynny.

Ni chynhyswyd pob un o'r staff cymorth sy'n deulu i Aelod yn y tabl gan fod rhai nad ydynt erioed wedi derbyn taliadau bonws, goramser a/neu filltiredd.

Yn y tabl, rhoddwyd "Amh" (Amherthnasol) yn rhai o'r celloedd sy'n nodi taliadau bonws. Cyn Mai 2011, caniatawyd taliadau o'r fath yn y system lwfansau, ond ers hynny, mae'r rheolau yn gwahardd talu bonws.

Cyn 2011, roedd rhan berthnasol y Penderfyniad yn dweud:

'*...gall Aelod hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff hyd at £5,801 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn), a bydd y swm hwn yn codi'n unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.'*

Yn y Pedwerydd Cynulliad, sef o fis Mai 2011 ymlaen, mae adran berthnasol y Penderfyniad, sy'n ymdrin â'r lwfans gwariant staffio, yn datgan:

*'7.1.8 Ni chaniateir talu bonws i'r staff o'r lwfans hwn (nac o'r un lwfans arall).'*

Mae'r Penderfyniad hwnnw hefyd yn nodi:

*'7.3.1 Caniateir defnyddio hyd at £2,000 o'r balans sy'n weddill ar gyfer taliadau teithio a goramser i'r staff.'* Mae a wnelo taliadau a wneir o dan y paragraff hwn â'r holl staff cymorth a gyflogir gan bob Aelod Cynulliad—hynny yw, ni waeth a ydynt yn deulu neu beidio. Er mwyn osgoi amheuaeth, noder mai fesul Aelod Cynulliad yw'r **cyfanswm** o £2,000 y gellir ei hawlio, ac nid fesul aelod o staff.

Yn ogystal, mae lwfans ar gael o dan baragraff 5.21.1, sy'n dweud, *'... mae gan bob Aelod hawl i wneud cais am y costau i'w aelodau staff wneud hyd at gyfanswm o 18 o siwrneiau dwyffordd ar gludiant cyhoeddus bob blwyddyn rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod.'* Mae hyn hefyd yn berthnasol i holl staff cymorth. Noder nad yw hyn yn golygu y gall pob aelod o staff sy'n gweithio i Aelod Cynulliad hawlio 18 taith ddwyffordd mewn blwyddyn. Deunaw taith ddwyffordd y flwyddyn yw'r **cyfanswm** y gall Aelod Cynulliad ei hawlio ar ran staff sydd yn y categori hwn.

Rhaid i ddarpar staff cymorth sy'n deulu gael eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored a theg, a bydd yr Aelod Cynulliad dan sylw yn cael ei dynnu o'r broses benodi am gyhyd ag y bo aelod o'i deulu yn ymgeisydd. Mae'r polisi recriwtio presennol yn datgan:

*Ni chaiff Aelodau'r Cynulliad fod yn rhan o'r broses ddethol os yw aelod o'r teulu'n ymgeisio am y swydd. O dan yr amgylchiadau hyn, y tîm Cymorth Busnes i Aelodau fydd yn gyfrifol am y broses.*

*Os nad yw perthynas yr Aelod Cynulliad yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer neu os yw'n penderfynu tynnu'n ôl, bydd y broses yn cael ei rhoi'n ôl yng ngofal yr Aelod Cynulliad.*

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Tîm**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

| Blwyddyn ariannol | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-hyd heddiw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm a dalwyd am filltiredd fesul blwyddyn | £2,421.96 | £1,710.40 | £1,426.00 | £1,846.97 | £1,384.02 | £4,168.44 | £5,468.50 | £322.32 |
| Nifer y staff cymorth a dalwyd | 4 | 2 | 2 | 5 | 5 | 5 | 7 | 3 |
| | | | | | | | | |
| Cyfanswm y taliadau bonws a wnaed fesul blwyddyn | £5,100.00 | £6,465.22 | £4,700.00 | £7,550.00 | Amh | Amh | Amh | Amh |
| Nifer y staff cymorth a dalwyd | 4 | 6 | 5 | 7 | Amh | Amh | Amh | Amh |
| | | | | | | | | |
| Cyfanswm a dalwyd ar gyfer goramser fesul blwyddyn | £106.00 | - | £556.05 | - | £181.78 | £675.53 | £4,977.53 | £548.10 |
| Nifer y staff cymorth a dalwyd | 1 | - | 1 | - | 1 | 2 | 5 | 1 |

Noder:

**(i) Mae'r tabl uchod yn rhoi'r cyfanswm a dalwyd ym mhob blwyddyn ariannol er 2007-08 o ran taliadau bonws, milltiredd a goramser, a nifer y staff cymorth i Aelodau'r Cynulliad sydd wedi derbyn y symiau hynny.**

**(ii) Ni nodwyd pob aelod teulu a gyflogwyd fel staff cymorth i Aelodau'r Cynulliad yn y tabl gan nad yw rhai erioed wedi derbyn taliadau bonws, goramser a/neu filltiredd.**

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth a geisir (sef cyfanswm rhai taliadau nad ydynt yn rhan o gyflog y Staff Cymorth sy’n deulu i’r Aelodau Cynulliad sy'n eu cyflogi) yn dod o dan y diffiniad o ddata personol yn Neddf Diogelu Data 1998, sef:

> “data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller”.

Felly, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o'r Ddeddf, lle y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu gwybodaeth gyntaf, fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> “Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met...”

Wrth benderfynu a fyddai datgelu’r wybodaeth hon yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau ei datgelu, disgwyliadau rhesymol yr unigolion o dan sylw, a'r cydbwysedd rhwng hawliau'r unigolion hynny ac unrhyw fudd dilys mewn cysylltiad â datgelu. Daethom i'r casgliad mai annheg fyddai datgelu'r wybodaeth. Mae'r taliadau o dan sylw yn cael eu gwneud yn unol â gwasanaethau a gyflawnir yn rhinwedd cyflogaeth (megis gweithio dros oriau contract, neu deithio at ddibenion gwaith) gan staff ar gyfer yr Aelodau Cynulliad sy'n eu cyflogi. Yn hyn o beth, mae a wnelo'r symiau hyn â'u sefyllfa ariannol ac maent felly yn faterion preifat. Ni all y staff ddisgwyl i wybodaeth sy'n ymwneud â’u tâl gael ei gwneud yn gyhoeddus. Yn lle hynny, fe gyhoeddwyd y rheolau ar gyfer y taliadau y gellir eu gwneud (neu beidio), fel y nodwyd yn y Penderfyniad.

Serch ein barn ynghylch sicrhau tegwch, rhoesom ystyriaeth hefyd i Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid yw'r amodau yn Atodlen 2 yn berthnasol, heblaw paragraff 6, sy'n caniatáu prosesu gwybodaeth bersonol fel a ganlyn:

> "The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- Mae'n rhaid wrth fudd cyhoeddus dilys dros ddatgelu'r wybodaeth;
- Mae'n rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; a
- Rhaid sicrhau nad yw'r hyn a ddatgelir yn peri ymyrraeth ddiangen yn hawliau, rhyddid a buddiannau cyfreithlon y person.

Mae budd i'r cyhoedd o ran tryloywder yn gyffredinol, ac yn benodol o ran gwybod graddau'r cymorth y mae Aelodau'r Cynulliad yn ei gael i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys staff i'w cynorthwyo. Yn ein tyb ni, mae datgelu'r wybodaeth ar ffurf ddienw, ynghyd â chyhoeddi Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, yn foddhaol o ran budd y cyhoedd yn yr achos hwn. Mae'r Penderfyniad yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad er mwyn cyflogi staff i'w cynorthwo. Ar gyfer pob math o gymorth, mae'n egluro'r amgylchiadau ar gyfer talu symiau ac unrhyw uchafsymiau perthnasol.

Yn yr amgylchiadau, ni fyddai datgelu'r symiau dan sylw a dalwyd i staff cymorth unigol yn angenrheidiol er budd y cyhoedd. Ein casgliad, felly, yw na fyddai'n bosibl bodloni'r amodau yn Atodlen 2.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF